

Ysgol Maes Cloddiadau Meillionydd

Telerau ac Amodau

Mae'r telerau ac amodau canlynol yn berthnasol i'r holl gontractau rhwng yr Ysgol Maes a'r myfyrwyr. Trwy wneud cais am yr ysgol maes rydych yn cytuno i'r telerau hyn.

Ffioedd ac Anfonebau

1. Trwy wneud cais am yr ysgol maes rydych yn cytuno i dalu eich ffioedd yn llawn. Hyd nes y byddwn wedi derbyn eich taliad ni fydd eich lle yn warrantedig a bydd unrhyw lythyr cadarnhau a dderbyniwch yn gadarnhad amodol yn unig.
2. Rhaid derbyn tâl fan leiaf fis ar ôl i'ch lleoliad gael ei gadarnhau, ond o leiaf 14 diwrnod cyn y bwriadwch ddod i'r safle. Os na fyddwn wedi derbyn eich taliad erbyn y dyddiad hwn, byddwn yn cymryd na fyddwch yn dod i'r Ysgol Maes a byddwn yn rhoi eich lle i rywun arall.

Pe bai problem, a fydddech cystal â chysylltu cyn gynted â phosibl â chyd-gyfarwyddwr yr Ysgol Faes, Katharina Moeller (k.moeller@bangor.ac.uk neu +44 (0)7970993891).

3. Rhaid i'r holl daliadau gael eu gwneud mewn punnau sterling trwy siop ar-lein y brifysgol.
4. Ni fyddwn yn anfon derbyniadau dim ond os gofynnir amdanynt.

Canslo ac Ad-daliadau

5. Mae eich cais i'r Ysgol Maes yn cael ei ystyried fel ymrwymiad i'r cloddiad. Os bydd raid i chi ganslo, mae'n rhaid i chi roi gwybod i gyd-gyfarwyddwr yr Ysgol Maes, Katharina Moeller (k.moeller@bangor.ac.uk neu +44 (0)7970993891).
6. Ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd os byddwch yn canslo ar ôl 30 Ebrill oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn prynu yswiriant polisi personol i ddiogelu yn erbyn gorfod canslo ar y funud olaf neu fynd yn sâl yn ystod y cloddiad.
7. Fel unrhyw weithgaredd awyr agored mae cloddiadau Meillionydd yn dibynnu ar y tywydd. Os bydd glaw trwm a pharhaus, bydd rhaid i'r gwaith ar y safle ddod i ben. Er y byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn tasgau ôl-gloddio mewn achosion o'r fath, os bydd eich oriau dysgu yn yr Ysgol Maes yn cael eu gostwng oherwydd tywydd gwael, NI ALLWN gynnig ad-daliadau.

Atebolrwydd

8. Mae gan Brifysgol Bangor yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ond rydym yn cynghori cyfranogwyr i brynu eu polisi personol eu hunain.
9. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw golled neu ddifrod i eiddo personol y byddwch yn dod gyda chi i'r Ysgol Maes.